Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth byddwn ni'n ei wneud i gynnwys ein haelodau

## Canllaw i beth y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei wneud i gynnwys aelodau



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen **'Aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, pobl o'r trydydd sector a darparwyr - Siarter'.**

**Mehefin 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd hi'n anodd deall geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi siecio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 12**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:

E-bost : PartneriaethauacIntegreiddio@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

Tudalen

**Cyflwyniad** .......... **4**

**Y Siarter** .......... **6**

Cydgynhyrchu .......... 6

Recriwtio .......... 7

Cymorth .......... 9

Adrodd ac adolygu .......... 11

**Geiriau anodd** .......... **12**

# Cyflwyniad



Yng Nghymru, mae 7 **Partneriaeth Ranbarthol**.



Maen nhw'n cynnwys gwasanaethau iechyd, cynghorau lleol a rhai sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn ardaloedd o Gymru.



Mae pob un o'r **Partneriaethau Rhanbarthol** hyn yn cael ei redeg gan grŵp o'r enw **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**.



Maen nhw'n gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar gyfer eu hardal nhw.

Byddwn ni'n defnyddio'r teitl byr **Byrddau** ar eu cyfer nhw.



Mae rhaid i'r **Byrddau** hefyd gynnwys aelodau o'r grwpiau hyn:

- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- gofalwyr
- sefydliadau yn y trydydd sector. Mae hyn yn golygu elusennau a rhai sefydliadau eraill.
- sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth.

Byddwn ni'n defnyddio'r term byr **Aelodau Ehangach** i ddisgrifio'r aelodau hyn.




Mae'r canllaw hwn hefyd yn cael ei alw'n **Siarter**.



Y Siarter yw rhestr o beth mae angen i **Fyrddau** ei wneud i sicrhau bod yr **Aelodau Ehangach** yn gallu ymwneud â'u gwaith.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed bod yr aelodau hyn yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan yng nghyfarfodydd y **Byrddau**.



Maen nhw angen help ychwanegol i ddeall beth sy'n digwydd.



Ac maen nhw angen help i gael dweud eu dweud am bethau sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae'r Siarter hon yn rhestr o beth mae Llywodraeth Cymru am i'r **Byrddau** ei wneud i helpu'r **Aelodau Ehangach**. Mae'r Llywodraeth am i'r holl **Fyrddau** ddilyn y Siarter.

## Y Siarter

Mae rhaid i'r **Byrddau** wneud y pethau canlynol:

### Cydgynhyrchu



Mae **cydgynhyrchu** yn golygu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth â phobl broffesiynol i ddatblygu'r gwasanaethau maen nhw eu hangen.

Mae hyn yn golygu bod holl aelodau'r **Byrddau** yn gyfartal. Ac yn cael llais cyfartal ym mhob penderfyniad.

- Gwneud yn siŵr bod **cyd-gynhyrchu** yn digwydd ar bob lefel o waith y bartneriaeth ranbarthol.



- Darparu hyfforddiant fel bod pob aelod o'r **Byrddau** yn deall **cyd-gynhyrchu**.

## Recriwtio



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud ar y **Bwrdd** drwy roi disgrifiadau clir o'u rolau iddyn nhw.




- Gwneud yn siŵr bod ffyrdd clir a **hygyrch** o hysbysebu a denu aelodau o'r bwrdd.

> Mae **hygyrch** yn golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu deall neu ddefnyddio rhywbeth. Er enghraifft, gwneud hysbyseb yn Hawdd ei Deall.

## Cyfarfodydd Bwrdd



- Gwneud cyfleoedd i **Aelodau Ehangach** gael dweud eu dweud am bethau mae angen eu trafod mewn cyfarfodydd.




- Gwneud yn siŵr bod nodiadau cyfarfodydd yn hawdd eu defnyddio ac yn **hygyrch**.




- Rhoi papurau allan ar gyfer y cyfarfod mewn da bryd, a chyfle i **Aelodau Ehangach** ar y bwrdd feddwl amdanyn nhw a gofyn cwestiynau.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n gyfartal a'u bod nhw'n cael eu cynnwys.

- Mae rhaid i'r cadeirydd wneud yn siŵr bod y cyfarfod yn rhedeg yn llyfn a bod pawb yn cael eu cynnwys.

## Cymorth




Rhoi cymorth a hyfforddiant i'r **Aelodau Ehangach**.



- Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i'r cadeirydd ddod i adnabod **Aelodau Ehangach**. A chael gwybod beth yw eu sgiliau nhw.




Trefnu i'r **Aelodau Ehangach** gael cyfarfod un i un â chadeirydd y bwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. I wirio sut mae'r gwaith yn mynd.



- Gwneud yn siŵr bod cyfleodd i'r **Aelodau Ehangach** gael dweud eu dweud am sut mae pethau'n mynd.



- Cynnig cymorth gweithiwr cymdeithasol i'r **Aelodau Ehangach** sydd ei angen.




- Gwneud yn siŵr bod **Aelodau Ehangach** yn gwybod sut i wneud cwyn.



- Ei gwneud hi'n haws i bob aelod o'r **Byrddau** siarad a gweithio gyda'i gilydd yn dda.

# Adrodd ac adolygu



- Gwneud yn siŵr bod yr **Aelodau Ehangach** yn gallu dweud eu dweud am eu profiad arno fe. Ac ymwneud â'r adroddiad blynyddol.



- Gwirio'r gwaith hwn bob blwyddyn. A gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

# Geiriau anodd

## Hygyrch

Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu deall neu ddefnyddio rhywbeth. Er enghraifft, gwneud hysbyseb yn Hawdd ei Deall.

## Cydgynhyrchu

Mae **cydgynhyrchu** yn golygu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth â phobl broffesiynol i ddatblygu'r gwasanaethau maen nhw eu hangen.

Mae hyn yn golygu bod pob aelod o'r **Byrddau** yn gyfartal. Ac yn cael llais cyfartal ym mhob penderfyniad.